OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 758 (Cy. 109)

2024 No. 758 (W. 109)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

The Education (Student Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Maent yn ychwanegu cyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Swyddfa Fyfyrwyr, ac yn dileu cyfeiriadau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Education (Student Information) (Wales) Regulations 2017 to reflect changes made by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 and the Higher Education and Research Act 2017. They add references to the Commission for Tertiary Education and Research and the Office for Students, and remove references to the Higher Education Funding Council for Wales and the Higher Education Funding Council for England.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2024 Rhif 758 (Cy. 109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwnaed	*19 Mehefin 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*21 Mehefin 2024*
Yn dod i rym	*1 Awst 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 253A(2)(c)(**1**) ac adran 262(3)(c) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**2**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2024.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**3**).

(**1**) Gweler adran 253A(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 am y diffiniad o "prescribed".
(**2**) 2009 p. 22. Mewnosodwyd adran 253A gan adran 79(1) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26) ac fe'i diwygiwyd gan adran 58 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5), a pharagraff 9(2) o Atodlen 4 iddi.
(**3**) O.S. 2017/886 (Cy. 214).

2024 No. 758 (W. 109)

EDUCATION, WALES

The Education (Student Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

Made	*19 June 2024*
Laid before Senedd Cymru	*21 June 2024*
Coming into force	*1 August 2024*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 253A(2)(c)(**1**) and section 262(3)(c) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 1 August 2024.

Interpretation

2. In these Regulations "the 2017 Regulations" means the Education (Student Information) (Wales) Regulations 2017(**3**).

(**1**) See section 253A(3) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 for the definition of "prescribed".
(**2**) 2009 c. 22. Section 253A was inserted by section 79(1) of the Small Business, Enterprise and Employment Act 2015 (c. 26) and amended by section 58 of and paragraph 9(2) of Schedule 4 to the Qualifications Wales Act 2015 (anaw 5).
(**3**) S.I. 2017/886 (W. 214).

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

3. Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2017, yn y diffiniad o "darparwr dysgu" ar ôl "Weinidogion Cymru" mewnosoder "neu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil(**1**)".

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2017—

(a) yn lle "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" rhodder "Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil";

(b) yn lle "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr" rhodder "Y Swyddfa Fyfyrwyr(**2**)".

Amendments to the Education (Student Information) (Wales) Regulations 2017

3. In regulation 2 of the 2017 Regulations, in the definition of "learning provider" after "Welsh Ministers" insert "or the Commission for Tertiary Education and Research(**1**)".

4. In Part 1 of Schedule 2 to the 2017 Regulations—

(a) for "The Higher Education Funding Council for Wales" substitute "The Commission for Tertiary Education and Research";

(b) for "The Higher Education Funding Council for England" substitute "The Office for Students(**2**)".

Lynne Neagle

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2024

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
19 June 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).

(**2**) Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29).

(**1**) The Commission for Tertiary Education and Research is a body corporate established under section 1 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).

(**2**) The Office for Students is a body corporate established under section 1 of the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29).

ISBN 978-0-348-39578-5

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/758